| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 09/12/2025 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Penodi Aelod Cyfetholedig Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau |
| **ADRODDIAD GAN:** | Panel Dethol y Pwyllgor Safonau |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>lbxcs@ynysmon.llyw.cymru |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Cadarnhau penderfyniad Panel Dethol y Pwyllgor Safonau |

## CEFNDIR

1. O dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2006) mae'n rhaid i'r Cyngor gael Pwyllgor Safonau sy'n cynnwys dim mwy na naw aelod, ac mae'n rhaid i'r mwyafrif o'r rhain fod yn aelodau annibynnol o'r cyhoedd.

2. Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor Safonau'n cynnwys pump aelod annibynnol, dau gynghorydd cymuned a dau gynghorydd sir.

3. Mae'n rhaid i aelodau annibynnol gael eu penodi gan y Cyngor ar sail argymhelliad gan Banel Dethol y Pwyllgor Safonau. Mae un sedd wag achlysurol ar y Pwyllgor Safonau ar hyn o bryd.

4. Mae cyfnod un aelod annibynnol yn y swydd yn dod i ben ar yr 11eg o Ragfyr 2025.

## SEDD WAG AR GYFER AELOD ANNIBYNNOL O'R PWYLLGOR SAFONAU

5. Mae Rheoliadau Statudol yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau'r Pwyllgor Safonau gael eu penodi gan y Cyngor, ond dim ond ar ôl cydymffurfio â phroses ddethol statudol. Er mwyn cynnal y broses recriwtio a dethol hon mae'r Cyngor Sir wedi dirprwyo ei awdurdod i Banel Dethol y Pwyllgor Safonau; mae'r panel hwn yn cynnwys un aelod annibynnol o'r cyhoedd, un cynghorydd cymuned a thri chynghorydd sir (ar sail cydbwysedd gwleidyddol).

6. Aelodau cyfredol y Panel ydi'r Cynghorydd Aled Morris Jones; y Cynghorydd Dylan Rees; y Cynghorydd Margaret Murley Roberts (Cadeirydd); y Cynghorydd Ann Kennedy (Cyngor Tref Caergybi) a'r aelod annibynnol Dr Teleri Mair Jones.

7. Yn dilyn cyfarfod o Banel Dethol y Pwyllgor Safonau ar 23 Medi 2025 cafodd y sedd wag ei hysbysebu ar wefan a rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, yn y Bangor and Anglesey Mail a'r Daily Post. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau oedd 5:00pm ar 10 Hydref 2025.

8. Yn dilyn y dyddiad cau rhoddodd Panel Dethol y Pwyllgor Safonau sylw i’r ceisiadau a ddaeth i law yn ystod proses llunio rhestr fer a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2025. Wrth lunio’r rhestr fer cafodd yr ymgeiswyr eu hystyried yn erbyn y meini prawf a fyddai wedi eu diarddel yn awtomatig. Ar ôl ystyried y ceisiadau, penderfynodd y Panel na ddylid diarddel yr un ymgeisydd rhag cael eu penodi i’r Pwyllgor Safonau.

9. Cafodd yr ymgeiswyr ar y rhestr fer eu cyfweld gan Banel Dethol y Pwyllgor Safonau ar y 6ed a’r 13eg o Dachwedd 2025, a chytunodd y Panel i enwebu **Mr David Davies** i’w benodi’n aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau, yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol; mae’r rheini bellach wedi’u derbyn ac wedi cael eu hasesu gan Gadeirydd Panel Dethol y Pwyllgor Safonau.

## ARGYMHELLION

Derbyn argymhellion Panel Dethol y Pwyllgor Safonau, sydd fel a ganlyn:-

- penodi **Mr David Davies** yn aelod annibynnol cyfetholedig o’r Pwyllgor Safonau, gyda’i gyfnod yn y swydd yn dod i rym ar y 12fed o Ragfyr 2025; a

- petai sedd wag achlysurol am aelod annibynnol o’r Pwyllgor Safonau yn codi yn ystod y deuddeng mis nesaf, penodi **Dr Margaret Flynn** i’r rôl yn awtomatig heb orfod mynd trwy broses recriwtio arall, ar yr amod, wrth gwrs, bod yr ymgeisydd yn parhau’n gymwys ar gyfer y rôl, ac yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol cyn ei phenodi.